

# OUR BRIGHT FUTURE


## Gwerthuso Effeithiau Prosiectau

### Our Bright Future:

### Sut ydw i'n gwybod bod fy mhrosiect wedi gweithio?

#### Beth yw effaith?

Gellir meddwl am effeithiau fel canlyniadau gweithgaredd neu weithred yn y pen draw. Gall effeithiau fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac yn fwriadol neu'n anfwriadol. Wrth werthuso, ystyrir effeithiau fel elfen derfynol model rhesymeg. Mae model rhesymeg yn cael ei gyflwyno fel rheol fel cyfres o gamau a chymerir bod pob un yn cyfrannu neu'n arwain at y nesaf, o fewnbynau i weithgareddau i ganlyniadau ac ati:



Felly mae theori o newid neu fodel rhesymeg yn esbonio sut mae ymyriad (yn achos Our Bright Future hwn fyddai'r *rhaglen* yn gyffredinol neu *brosiect* penodol) yn cael ei ddeall fel un sy'n arwain at effeithiau bwriadol (ac anfwriadol).

Ar gyfer Our Bright Future, mae theori o newid gwerthusiad y rhaglen yn ystyried canlyniadau ac effeithiau ar wahân, ond bydd rhai gwerthusiadau'n ystyried y rhain gyda'i gilydd. Yng nghyd-destun prosiectau Our Bright Future, gall fod yn ddefnyddiol meddwl am y gwahaniaeth rhwng allbynau, canlyniadau ac effeithiau o ran beth sy'n cael ei effeithio (pobl ifanc, cymunedau, yr amgylchedd ac ati).

Mae Tabl 1 yn awgrymu sut rydych chi'n meddwl am allbynau, canlyniadau ac effeithiau efallai gan ddefnyddio esiampl o brosiect sy'n ceisio cael pobl ifanc i weithio yn yr amgylchedd naturiol fel cyfrwng i gael achrediad mewn rheoli cynefinoedd, gyda'r nod o alluogi i bobl ifanc ddod o hyd i gyflogaeth. Yn ymarferol, bydd gwahanol brosiectau'n canolbwyntio ar wahanol ganlyniadau ac effeithiau, gan ddibynnu ar eu hamcanion a'r buddiolwyr targed.

**Tabl 1: Sut ydych chi'n meddwl am 'allbynau', 'canlyniadau' ac 'effeithiau'**

<b>Allbynau</b>	Beth fydd y prosiect yn ei wneud / cynhyrchion concred, diriaethol y prosiect e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn cymryd rhan mewn un neu fwy o weithgareddau penodol a drefnir gan y prosiect ac a fydd yn rhoi iddynt amgylchedd strwythuredig ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau a oruchwylir sy'n adeiladu tuag at ennill achrediad.</li> </ul>
<b>Canlyniadau</b>	Amodau wedi newid ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r prosiect, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r prosiect yn cwblhau eu cyfranogiad ar ôl ennill yr achrediad a fwriadwyd yn llwyddiannus.</li> </ul>
<b>Effeithiau</b>	Newidiadau mewn pobl ifanc, cymunedau, yr amgylchedd, sefydliadau, y byd ehangach o ganlyniad i'r prosiect, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>Y bobl ifanc yn dod o hyd i gyflogaeth yn sector yr amgylchedd.</li> </ul>

Wrth feddwl am allbynnau, canlyniadau ac effeithiau, gall fod yn ddefnyddiol ystyried amserlenni hefyd e.e. yn gyffredinol, mae allbynnau'n ganlyniad uniongyrchol i weithgaredd neu broses; newidiadau tymor byr i'r bobl (neu'r pethau) sy'n darged y prosesau / gweithgareddau yw canlyniadau; newidiadau tymor hwy i bobl (neu bethau) o ganlyniad i'w hymwneud yw effeithiau. Hefyd gall effeithiau gynnwys newidiadau ehangach e.e. i'r amgylchedd, ymddygiad, arferion ac ati. Yn achos Our Bright Future, mae'n bosib y bydd rhai effeithiau'n digwydd ar ôl i'r prosiect gau. Fodd bynnag, gellir nodi'r effeithiau disgwylidiedig, a gellir rhoi gweithdrefnau monitro ôl-brosiect ar waith, ac ar gyfer prosiectau gyda grwpiau penodol (e.e. blynyddol) neu ymgysylltu tymor byr neu unigol arall, efallai bod posib adnabod a mesur yr effeithiau eisoes.

### **Pam mae'n bwysig ystyried a gwerthuso effeithiau?**

Er ei bod yn ddefnyddiol gwybod pa mor ddefnyddiol yw ymyriad (prosiect, rhaglen) am fodloni disgwyliadau mewn perthynas â gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau, y mesur yn y pen draw o ran pa mor werthfawr a llwyddiannus yw ymyriad yw drwy ei effeithiau. Hefyd mae deall effeithiau ymyriad yn ffordd allweddol i sefydliad ddysgu am ba mor llwyddiannus neu fel arall fu ymyriadau, a sut mae angen eu newid yn y dyfodol efallai.

Gan ddefnyddio'r esiampl yn Nhabl 1, os yw prosiect yn denu ei nifer targed o bobl ifanc at weithgareddau sy'n cael eu cynllunio a'u gweithredu fel y cynlluniwyd, ac os yw cyfran uchel yn llwyddo i gael achrediad, efallai y caiff y prosiect ei ystyried yn llwyddiant. Fodd bynnag, os na fydd unrhyw bobl ifanc yn parhau i ymwneud â'r gweithgareddau yn yr amgylchedd nac yn chwilio am waith mewn rheolaeth amgylcheddol (ac mai'r rhain oedd nodau'r prosiect), efallai y bydd rhaid i'r prosiect ystyried a yw'r math o weithgarwch mae'n ei wneud neu'r achrediad mae'n gweithio tuag ato'n briodol er mwyn cyflawni'r effaith a fwriedir. Hefyd gall y canfyddiad hwn ysgogi adlewyrchu ar y ffactorau eraill a all fod yn dylanwadu ar yr effaith, ac a oes angen ystyried y rhain wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol (e.e. hunanhyder pobl ifanc, sgiliau cyfathrebu ac ati).

### **Pa effeithiau ddylai prosiectau fod yn eu disgwyl ac yn ceisio'u gwerthuso?**

Bydd union natur yr effeithiau a ddisgwylir yn dibynnu ar ffocws ac amcanion pob prosiect. Er enghraifft, byddai prosiect sy'n canolbwyntio ar annog pobl ifanc i fod yn entrepreneuriaid yn y sector amgylcheddol yn cael effeithiau gwahanol iawn i brosiect sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn sefydlu neu wella gerddi cymunedol a thyfu bwyd.

Wrth feddwl am y theori o newid neu'r rhesymeg ymyriad ar gyfer eich prosiect, mae'n bwysig ystyried beth, yn y pen draw, ydych chi'n ceisio'i gyflawni gyda'r ymyriadau arfaethedig. Mae'n bur debyg bod hyn wedi'i ymgorffori eisoes yng ngweledigaeth ac amcanion eich prosiect, fodd bynnag, at ddibenion gwerthuso, mae'n ddefnyddiol disgrifio'r effeithiau penodol disgwylidiedig yn hytrach na'r gweledigaethau neu'r amcanion ehangach a llai pendant (e.e. efallai mai amcan yw 'gwella rhagolygon cyflogaeth pobl ifanc yn y sector amgylcheddol', ac effaith gysylltiedig fyddai 'mwy na 50% o'r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect wedi cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r sector amgylcheddol').

Mae Tabl 2 (dros y dudalen) yn cyflwyno rhai esiamplau o'r math o effeithiau y gellir eu disgwyl gan brosiectau Our Bright Future.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod sawl ffactor arall, yn allanol i'ch prosiect ac Our Bright Future, wedi cyfrannu'n rhannol efallai, neu'n llwyr, at y canlyniad neu'r effaith a welwyd. Oherwydd hyn, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y gellir **priodoli** effeithiau i'ch prosiect. Er enghraifft, wrth ofyn i bobl ifanc am sut mae eich prosiect wedi dylanwadu arnynt, cofiwch ofyn a oes unrhyw ffactorau, prosiectau, profiadau neu unigolion eraill wedi chwarae eu rhan hefyd.

**Tabl 2: Esiamplau o fathau o effaith y gellir ei disgwyl**

Maes effaith	Esiamplau o effeithiau
<b>Pobl ifanc</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan neu wedi cymryd rhan yn y prosiect yn defnyddio sgiliau neu gymwysterau newydd a ddysgwyd i gael cyflogaeth. (Gallai nifer neu ganran benodol o gyfranogwyr fod yn darged cysylltiedig.)</li> <li>Drwy eu cyfranogiad yn y prosiect, mae pobl ifanc yn ymwneud â gwirfoddoli amgylcheddol ac yn parhau'n wirfoddolwyr brwd ar ôl ymwneud â'r prosiect.</li> <li>Mae pobl ifanc yn mynegi teimladau o well hunanhyder a lles, ac mae arolygu hydredol (e.e. blwyddyn ar ôl ymwneud ag Our Bright Future) yn dangos bod y teimladau hyn wedi parhau.</li> </ul>
<b>Yr amgylchedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae perllan drefol a grëwyd ac a blannwyd drwy weithgareddau prosiect Our Bright Future wedi'i sefydlu ac mae'n cael ei chynnal ac yn parhau i gynhyrchu ffrwythau a darparu gofod dymunol i bobl leol.</li> <li>Mae ardal o gynefin sydd wedi'i wella a'i greu drwy weithgareddau prosiect Our Bright Future yn parhau'n iach (o ansawdd da) ac mae modd casglu tystiolaeth o rywogaethau targed yn sefydlu poblogaethau hyfyw.</li> </ul>
<b>Y gymuned</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae aelodau o gymuned leol (gall hwn fod yn lle neu'n grŵp cymunedol), lle cafodd cyfranogwyr prosiect eu hannog gan brosiect Our Bright Future i ymwneud â gwella parc lleol, yn dal i ddefnyddio'r gofod fel unigolion neu ar gyfer digwyddiadau cymunedol.</li> <li>Mae gan gymuned leol lle cafodd pobl ifanc eu cefnogi gan brosiect Our Bright Future i fod yn arweinwyr amgylcheddol lefelau uwch o weithredu amgylcheddol (e.e. cyfraddau ailgylchu) na'r ardaloedd cymharol.</li> </ul>
<b>Polisi ac arferion</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>O ganlyniad i ymgyrchu neu weithgareddau eraill a gynhaliwyd fel rhan o brosiect Our Bright Future, mae cyngor lleol wedi newid polisi neu gynlluniau lleol, e.e. i warchod un neu fwy o ardaloedd o ofod gwyrdd, i annog ysgolion lleol i gynnwys dysgu yn yr awyr agored yn eu rhaglenni addysgu.</li> <li>Gan fod pobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn llwyddiannus mewn cydlynu a rheoli cyfarfodydd o brosiect Our Bright Future, mae un neu fwy o'r sefydliadau cysylltiedig yn penderfynu cynnwys pobl ifanc mewn grwpiau / byrddau rheoli rheolaidd ac mewn penderfyniadau.</li> </ul>

## Sut gall eich prosiect adnabod a gwerthuso effeithiau?

Nid yw'n debygol y byddwch, wrth feddwl am a disgrifio gweledigaeth ac amcanion eich prosiect, eisoes wedi ystyried pa effeithiau y mae'n fwriad i'r prosiect eu cael. Effeithiau yw'r canlyniadau yn y pen draw yn dilyn allbynnau a chanlyniadau ymyriadau a gyflwynwyd drwy brosiect Our Bright Future.

Mae'r effeithiau'n fwy tymor hwy yn gyffredinol nag allbynnau a chanlyniadau, sy'n ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau prosiect. Er enghraifft, gall gweithgaredd fod yn cynnwys pobl ifanc mewn ymyriad i blannu coed ifanc, yr allbwn yw bod y coed ifanc yn cael eu plannu gan y bobl ifanc, y canlyniad yw bod y bobl ifanc yn dysgu sgiliau newydd, yn dysgu am goed a, gyda'i gilydd, mae'r coed ifanc yn cynrychioli gofod naturiol newydd. Yr effaith yn ei dro yw bod y coed ifanc yn sefydlu ac yn tyfu'n goed, gan ddarparu cynefin ar gyfer rhywogaethau a lle i bobl leol ymlacio ac i'r bobl ifanc ddefnyddio'r sgiliau a ddysgwyd i barhau i wirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol mewn ffyrdd eraill.

Hefyd gall effeithiau fod yn anuniongyrchol neu'n effeithiau ehangach prosiect. Er enghraifft, gall prosiect sy'n annog pobl ifanc i lanhau traethau lleol a deall yr arfordir fod ag effeithiau ehangach wrth, er enghraifft, i gymuned leol werthfawrogi'r amgylchedd glanach ar y traeth a phenderfynu sefydlu sesiwn glanhau traeth rheolaidd neu godi arwyddion i annog pobl i fynd â'u sbwriel gartref. Efallai na ddisgwyliwyd effeithiau o'r fath, na'u hystyried, yn amcanion y prosiect gwreiddiol, ond dylid eu hystyried o hyd fel effeithiau'r prosiect.

I helpu i feddwl am effeithiau, mae'n syniad da defnyddio'r model rhesymeg uchod, sy'n eich annog chi i feddwl yn rhesymegol am beth fydd canlyniadau mewnbynnau a gweithgareddau eich prosiect, drwy ystyried allbynnau a chanlyniadau penodol i ddechrau ac wedyn, ar sail y rhain, beth fydd yr effeithiau. Os nad ydych chi'n teimlo bod yr effeithiau wedi'u disgrifio'n ddigonol eisoes ym model rhesymeg eich prosiect, neu yn y monitro, i helpu i adnabod yr effeithiau, gall fod o help ystyried sut byddai'r llwyddiant yn edrych mewn perthynas â mathau o weithgarwch a/neu'r cyfranogwyr yn eich prosiect? Sut byddech chi'n disgrifio'r llwyddiant hwn (h.y. pa newidiadau, ym mha ffordd)? Fodd bynnag, cofiwch wahaniaethu rhwng cwblhau 'gweithgareddau' (e.e. 100 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdy) a'r canlyniadau disgwylidig (e.e. cyfran o'r bobl ifanc hyn yn dysgu drwy eu cyfranogiad) a'r effeithiau (e.e. defnyddio'r dysgu yma i gael gwaith neu i symud ymlaen i addysg bellach).

Ar ôl i effeithiau disgwylidig eich prosiect gael eu nodi, gall y rhain fod yn rhan o fframwaith gwerthuso eich prosiect. Am gyfarwyddyd ar wahân ar fframweithiau gwerthuso ac adrodd yn ôl, chwiliwch am 'gwerthuso' ym Manc Gwybodaeth y Green Room ac agor ffeil excel [EVALUATION GUIDANCE FOR OUR BRIGHT FUTURE PROJECTS](#) neu'r EVALUATION FRAMEWORK DOCUMENT.

## Pryd bydd effeithiau'n cael eu gweld?

Gall fod yn ddefnyddiol meddwl am effeithiau yn nhermau'r cyfnod o amser pryd mae disgwyl i effeithiau gael eu gweld, h.y. tymor byr (e.e. o fewn ychydig wythnosau neu fisoedd i ymyriad); tymor canolig (e.e. mwy nag ychydig fisoedd ond llai na blwyddyn); tymor hwy (mwy na blwyddyn).

Mewn prosiectau sy'n para am fwy na blwyddyn, yn enwedig gydag ymgysylltu yn y tymor byrrach neu grwpiau blynyddol o gyfranogwyr, gobeithir y bydd modd mesur yr effeithiau ar gyfer rhai cyfranogwyr a'r mathau o weithgarwch / ymyriad.

Os nad oes disgwyl gweld effeithiau tan y tymor hwy, byddai'n fuddiol sefydlu cynllun monitro ar gyfer rhoi gweithdrefnau yn eu lle i fesur effeithiau dros amser. Er enghraifft, gall hwn fod yn adolygiad blynyddol o gyflwr gofod gwyrdd sydd wedi'i wella gan y prosiect, neu arolwg rheolaidd neu unigol ar bob cyfranogwr neu sampl o'r cyfranogwyr flwyddyn neu ragor o flynyddoedd ar ôl y cyfranogiad, i gasglu gwybodaeth am beth maent wedi'i wneud yn wahanol o ganlyniad i ymwneud ag Our Bright Future. Gall hyn fod yn hynod berthnasol i brosiectau a gyflwynir gan sefydliadau arweiniol a fydd yn parhau â gweithgareddau tebyg neu a fydd eisiau chwilio am gyllid yn y dyfodol ar gyfer prosiectau tebyg.

Gall model rhesymeg fod yn eithriadol werthfawr pan mae effeithiau eich prosiect yn rhai tymor hwy ac os nad oes tystiolaeth glir yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd. Yn yr achosion hyn, gellir defnyddio tystiolaeth o ganlyniadau fel arwydd o lwyddiant, hyd yn oed pan nad oes modd mesur yr effeithiau eto. Os yw hyn yn berthnasol wrth adrodd ar effeithiau, bydd yn bwysig disgrifio'n glir sut, a pham, mae disgwyl i ganlyniadau a fesurir arwain at effeithiau a pha ffactorau fydd yn cyfrannu at hyn, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, unrhyw ymyriad neu gefnogaeth barhaus a ddarperir gan y prosiect.

### **Beth sy'n gweithio i bwy a pham?**

Ar ôl i chi ystyried yr effeithiau cyffredinol, gall fod yn bosib ystyried, er enghraifft, a yw rhai mathau arbennig o bobl fel pe baent yn elwa'n benodol o gymryd rhan, neu fod rhai effeithiau penodol yn amlycach mewn rhai ardaloedd o gymharu ag eraill. Er mwyn deall effeithiau eich prosiect yn well a gweithredu fel sail i barhau i ddarparu eich prosiect, byddai'n ddefnyddiol darparu rhywfaint o gyd-destun i'r effeithiau rydych chi'n eu nodi ac yn ceisio eu mesur, e.e.:

- Ydych chi wedi gweld unhyw wahaniaethau yn y cyfranogwyr hynny'n nodi'r canlyniadau a'r effeithiau ehangaf neu fwyaf arwyddocaol? (E.e. o ran oedran, rhyw, diddordeb blaenorol, hyd/math o ymwneud h.y. gwirfoddol / gorfodol)
- Pa weithgareddau penodol sydd wedi cyfrannu at y newidiadau maent wedi'u profi? (e.e. gweithgareddau awyr agored ymarferol, gweithgareddau dan arweiniad ieuenctid, gwaith grŵp neu unigol)

### **Dulliau enghreifftiol o gasglu data ar gyfer mesur effeithiau**

Gellir defnyddio dulliau amrywiol o gasglu tystiolaeth a all helpu i fesur effeithiau a dangos eu bod wedi'u cyflawni. Mae'r tabl isod yn cyflwyno crynodeb o rai o'r prif ddulliau y gellid eu defnyddio a pha fath o effeithiau mae'r rhain yn berthnasol iddynt o bosib. Nid yw'n fwriad i'r tabl fod yn hollgynhwysfawr ac efallai eich bod yn gwybod am ddulliau eraill neu'n defnyddio dulliau eraill eisoes.

Yr effaith yn gysylltiedig â ...	Dulliau casglu tystiolaeth a awgrymir			
	Arolygon	Cyfweliadau neu grwpiau ffocws	Rhwydweithiau (e.e. cyn-fyfyrrwyr), gwirio cynnydd y cyfranogwyr	Arsylwi ac arolygu corfforol (e.e. nodi'r newidiadau a welwyd, tynnu lluniau cyn / ar ôl)
Pobl ifanc (cyfranogwyr)	✓	✓	✓	
Y gymuned	✓	✓		✓
Yr amgylchedd				✓
Polisi ac arferion	✓	✓		✓

### Ffynonellau o ragor o wybodaeth ac arweiniad

The Magenta Book: Cyfarwyddyd Llywodraeth y DU (Trysorlys EM) ar beth i'w ystyried wrth gynllunio gwerthusiad: <https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book>

Cyfarwyddyd Gwerthuso Cronfa Dreftadaeth y Loteri (sylwer bod hwn yn benodol yng nghyd-destun prosiectau Treftadaeth, ond yn berthnasol yn ehangach): <https://www.hlf.org.uk/evaluation-guidance>

Gwefan Better Evaluation:

[https://www.betterevaluation.org/en/themes/impact\\_evaluation](https://www.betterevaluation.org/en/themes/impact_evaluation)